

## PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 23 GORFFENNAF 2019

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Derbyshire, Jacobsen, Lancaster, Robson a/ac Wood

### 1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dilwar Ali a Susan Goddard.

### 2 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant

### 3 : CAIS AM DDEFNYDDIO RICSIOS TRYDAN FEL CERBYDAU HURIO PREIFAT

Derbyniodd yr awdurdod Trwyddedu gais gan y gweithredwr llogi preifat Ola i gael ricsios trydan wedi'i gymeradwyo fel cerbydau hurio preifat at ddefnydd cyffredinol. Hysbyswyd yr Aelodau bod y cerbydau yn debyg i'r cerbydau trydan 'Tuk Tuk' a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Pwyllgor. Fodd bynnag, mae ricsios trydan yn llai ac ond yn gallu cludo dau deithiwr.

Mae Ola yn bwriadu cynnig y ricsios fel opsiwn ar gyfer defnydd hurio preifat cyffredinol trwy eu app archebu, yn hytrach nag ar gyfer teithiau ymweld ar y llwybrau a gynlluniwyd ymlaen llaw a gytunwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor. Byddai'r cerbydau hyn yn gweithredu mewn parth wedi'i gyfyngu i Ganol y Ddinas a Bae Caerdydd.

Pe bai'r Pwyllgor o blaid caniatáu'r cais, yna byddai angen diwygio'r amodau trwyddedu. Nodwyd y newidiadau yn Atodiad C yr adroddiad. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o'r cerbydau o ran diogelwch teithwyr, cysur teithwyr a hygyrchedd cerbydau.

Croesawodd y Cadeirydd Ben Legg, Rheolwr Gyfarwyddwr, Ola UK a Tros Erlich, Rheolwr Project i'r cyfarfod. Cyflwynodd Ben Legg y cais.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Ola yn cyflwyno cerbydau trydan yn India gan fod yn rhaid i bob cerbyd 3 olwyn fod yn drydanol o fewn y 3 blynedd nesaf. Mae Ola o'r farn y gallai ricsios trydan hefyd weithio yn y DU gan fod y rhan fwyaf o ddinasoedd yn ceisio gwella ansawdd aer ac allyriadau is. Dyluniwyd y cerbydau gan gyn beiriannydd Volvo ac maent yn bodloni holl gyfarwydddebau'r UE o ran diogelwch. Mae'r cerbydau hyn wedi bod yn gweithredu yn Stockholm am y 18 mis diwethaf ac mae Ola wedi dewis Caerdydd i lansio ei gynllun peilot yn y DU.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, rhoddodd Tros Erlich fanylion pellach am nodweddion diogelwch y cerbyd. Mae gan y cerbydau gawell rholio, gwregysau diogelwch 3 phwynt, brecioau disg hydrologig ac olwynion sy'n addas ar gyfer pob math o dywydd. Mae yna lawer o gerbydau tebyg ar y farchnad ond diystyriodd Ola'r

opsiynau eraill am resymau diogelwch. Roedd y cerbydau hyn yn sefyll allan o'u cystadleuwyr o ran diogelwch.

Dywedodd yr ymgeiswyr fod gan y cerbydau amrediad cyfartalog o 30 milltir ar un tâl. Mae Ola yn bwriadu gweithredu cyfleuster storio / gwefru ger y parth gweithredu. Ni fydd cerbydau byth yn fwy na 3 milltir i ffwrdd o'u cyfleuster gwefru. Byddai Ola yn y tymor hwy yn asesu hyfywedd cyfnewid batris fel nad yw cerbydau'n cael eu cadw allan o wasanaeth wrth iddynt wefru.

Gofynnodd Aelod a oes unrhyw wersi wedi'u dysgu yn ystod yr amser yr oedd Ola yn gweithredu yn Stockholm. Dywedodd Tros Erlich ei bod yn amlwg bod ricsios trydan yn gweithredu'n wahanol i dacsis confensiynol. Yn gyffredinol, mae reidiau'n fyrrach. Mae defnyddiau poblogaidd yn cynnwys partneriaethau gyda busnesau, teithiau byr mewn tywydd gwael, pobl ifanc a golygfeydd.

Nododd Aelod fod y parth dan gyfyngiadau yn ardal â nifer uchel o gerddwyr. Gofynnodd yr Aelod a wnaed unrhyw brofion o ran gwrthdrawiadau â cherddwyr a sut mae'r cerbydau hyn yn cymharu â cheir. Hysbyswyd yr Aelodau y bydd pob cerbyd yn cael ei yrru gan yrwyr trwyddedig proffesiynol. Maent yn ysgafnach ac yn arafach na cherbydau confensiynol. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau mawr yn Stockholm yn cynnwys gwrthdrawiadau â cherddwyr.

Trafododd y Pwyllgor ymhellach y diogelwch y mae'r cerbydau'n ei gynnig o'r tywydd, sut y byddai'r ardal gyfyngedig yn gweithredu, gofynion MOT a chyfyngiadau oedran. Cadarnhaodd yr ymgeiswyr y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i drosi rhai cerbydau i ganiatáu mynediad i'r anabl, os oedd cyfle i ehangu'r fflyd yn y dyfodol.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi, pe baent yn bwriadu caniatáu'r amod cais 5 yn yr amodau presennol yn ymwneud ag uchafswm nifer y teithwyr, y byddai hefyd yn berthnasol i'r amodau diwygiedig arfaethedig a restrir yn atodiad C. Gadawyd yr amod allan o Ran 2 o'r rhestr o amodau diwygiedig oherwydd gwall gweinyddol.

#### PENDERFYNWYD:

- (1) Cymeradwyo bod Ricsios ZBee yn addas i'w trwyddedu fel cerbydau hurio preifat;
- (2) Cymeradwyo'r newidiadau i amodau cerbyd hurio preifat penodol o ran Ricsios y manylir arnynt yn Atodiad C.

#### 4 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau bryd.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.45 am